Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Esceifiog
# Y Gaerwen
# Ynys Môn
# LL60 6DD

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Esceifiog ym mhentref Gaerwen ar Ynys Môn, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o'i chwmpas.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ym mis Medi ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed ac yn rhan amser yn y mis Medi ar ôl iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu yn bum dosbarth. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, Cymraeg yw cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 107 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Daw 83% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith cyfathrebu. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae tua 20% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n agos i'r canran sirol a chanran Cymru. Mae 26% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers mis Ionawr 2011. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Esceifiog yn 2013-2014 yw £4,450. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £9.156 a'r lleiafswm yw £2,901. Mae Ysgol Gynradd Esceifiog yn safle 23 o'r 48 ysgol gynradd ar Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n dda yn y sesiynau dysgu;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus;
- bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal a chefnogaeth dda iawn gan yr ysgol;
- ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion ar bob adeg yn dda iawn; a bod
- athrawon yr ysgol yn ymroddgar a'r addysgu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo'n dda iawn i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
- staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion;
- yr athrawon â ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
- y cynllun datblygu ysgol yn ddogfen glir sy'n llywio gwaith yr ysgol yn dda; a bod
- y corff llywodraethol yn effeithiol ac yn gweithredu fel cyfeillion beirniadol.

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd disgyblion cyfnod allweddol 2 o'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith

A2 Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a chadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. O oed cynnar iawn, maent yn cyfrannu'n gynyddol aeddfed a brwdfrydig i weithgareddau'r dosbarthiadau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac maent yn cydweithio'n hwylus iawn mewn sesiynau gwaith grŵp.

Mae safonau llafar Cymraeg a Saesneg disgyblion yn dangos cynnydd cadarn iawn dros eu cyfnod yn yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion eirfa gyffredinol a phynciol sy'n gynyddol gyfoethog, a llwydda disgyblion o bob oed i drafod eu gwaith yn effeithiol iawn. Gwnânt hyn yn estynedig mewn grwpiau bach ac o flaen y dosbarth. Maent yn ymwybodol iawn o'r anghenion gwahanol sydd ynghlwm wrth sgwrsio'n anffurfiol a chyflwyno mewn dull mwy ffurfiol. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn medru gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o lyfrau, ac yn gallu mynegi barn ynglŷn â'u cynnwys, ac am eu hoff awduron. Maent yn medru caffael gwybodaeth yn effeithiol o lyfrau a ffynonellau electronig i gefnogi eu dysgu.

Mae safonau ysgrifennu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol dda, gyda llawer o'r disgyblion yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir, ac yn atalnodi eu gwaith yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn medru defnyddio amser gorffennol a ffurfiau cryno'r ferf yn hyderus mewn darnau o waith ar draws y meysydd dysgu. Maent hefyd yn atalnodi'n gywir, ac yn gallu cywiro eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill, yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn gywir mewn ystod eang o ffurfiau. Maent yn amrywio'u hysgrifennu'n effeithiol yn y ddwy iaith, ac mae eu gwybodaeth o nodweddion a rheolau iaith yn gadarn. Serch hynny, nid ydynt bob amser yn defnyddio eu hysgrifennu estynedig yn effeithiol ar draws ystod o bynciau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Mae'r disgyblion hyn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol gyda chywirdeb da gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Maent yn defnyddio dulliau addas i ymgymryd â'u tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau syml. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn gwaith

ymchwil ac yn eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn gweithgareddau, megis hanes a gwyddoniaeth.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn dda ac, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un ohonynt yn dod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Nid yw'r disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 50% uwch. Roedd perfformiad y disgyblion ar ddeilliant 6 yn y 50% uwch mewn medrau llythrennedd ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol dros y ddwy flynedd. Dros gyfnod o ddwy flynedd, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ac mae'r bwlch yn arwyddocaol o gymharu â'r bwlch cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio ychydig dros y pedair blynedd diwethaf o'r 25% uchaf i'r 25% isaf yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2012 yn is o lawer o gymharu â'u perfformiad dros y blynyddoedd eraill. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar lefel 5 wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf ac roedd perfformiad y disgyblion yn is o lawer yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012.

Dros gyfnod o bum mlynedd, yn gyffredinol, mae'r merched wedi tueddu perfformio yn well ar lefel 5 yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r bechgyn mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac ar amseroedd eraill yn ystod y dydd. Maent hefyd yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfrifoldebau mae staff yn eu rhoi iddynt. Maent yn hynod falch o'u hysgol ac maent yn manteisio ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol. Maent yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol yr ysgol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae presenoldeb y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf dros gyfnod. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r amrywiaeth eang o ymweliadau ysgol yn cyfoethogi'r profiad dysgu ar gyfer disgyblion. Mae rhieni a thrigolion lleol yn ymwelwyr mynych â'r ysgol, ac maent yn ehangu'r cyfleoedd dysgu.

Mae cynlluniau athrawon yn sicrhau bod gwersi'n ysgogol a bod dilyniant yn nysgu disgyblion. Rhoddir lle blaenllaw yn y cynllunio i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhif, TGCh a medrau meddwl disgyblion. Serch hynny, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn datblygu'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn addas ac yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch er mwyn cyd-gynllunio.

Mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn cael ei hyrwyddo drwy amrywiaeth dda o weithgareddau yn y dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yr Urdd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda ac yn treiddio i nifer o feysydd y cwricwlwm. Mae ailgylchu ac arbed ynni yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol i alluogi disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang mewn gweithgareddau fel wythnos 'masnach deg' a chysylltiadau â gwledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Ym mhob dosbarth, mae athrawon yn sefydlu cydberthynas waith dda iawn gyda disgyblion ac yn trefnu gweithgareddau sy'n annog dysgu effeithiol. Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles yr unigolion a'r grwpiau o ddisgyblion sy'n cael cefnogaeth ganddynt. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi gweithgareddau'n dda i ateb anghenion disgyblion o bob gallu. Maent yn adeiladu'n bwrpasol ar wersi blaenorol ac yn rhannu amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog yn llawn.

Mae ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion yn ystod gwersi yn dda. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Gwnânt sylwadau clir ynghylch yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda a rhoddant arweiniad effeithiol ynghylch sut gall

disgyblion wella agweddau penodol ar eu gwaith. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn ôl meini prawf llwyddiant sydd wedi cael eu rhannu gyda disgyblion. Mae'r broses hon wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n helpu disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus. Mae athrawon yn defnyddio rhaglen electronig yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion.

Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi gwybod yn glir i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plentyn. Mae ansawdd yr adroddiadau yn dda ac yn ateb y gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill yn dda iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r meysydd hyn.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd, fel ymarferion pêl-droed, yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion. Mae'r clwb garddio, o dan arweiniad rhieni ac athrawon, yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol am dyfu a gofalu ar ôl bwyd a sut i'w baratoi, gan bwysleisio hylendid a diogelwch.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r cydlynydd dynodedig yn rhoi arweiniad clir i athrawon a llywodraethwyr yr ysgol. Trwy ymyrraeth gynnar, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae'r cynlluniau addysgu unigol yn gosod targedau clir a phriodol ac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Cânt effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cysylltiadau arbennig o effeithiol rhwng yr ysgol ac amrywiaeth o asiantaethau allanol fel yr heddlu a'r gwasanaeth iechyd ac, o ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn dda iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, gofalgar, hapus a chynhwysol. Nodwedd gref yw'r ethos teuluol sy'n annog y disgyblion i gymryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd-ddisgyblion a, thrwy hynny, fagu agwedd o barch a hunan hyder. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall pobl eraill o gefndiroedd amrywiol a chânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau addas yn eu lle. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol drwy weithdrefnau gwahanol, megis casglu tuag at elusennau fel Plant mewn Angen.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu. Mae'r ardal allanol wedi'i datblygu'n effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddilyn rhai argymhellion y cyngor ysgol. Er enghraifft, mae ardal natur wedi'i chreu i dyfu planhigion ac i ddenu adar gwyllt yr ardal.

Ceir ystafelloedd dosbarth lliwgar gydag adnoddau cyfoethog ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lân a graenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo'n dda i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae arweinyddiaeth bwrpasol y pennaeth, y dirprwy a'r staff yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae'r athrawon sy'n cydlynu'r meysydd dysgu ar draws yr ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â materion fydd yn sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth. Trwy ddadansoddi ystod eang o ddata perfformiad, mae gan yr athrawon ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael yn dda â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus a strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn rhan naturiol o'r gwersi trwy'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn derbyn gwybodaeth gyson drwy adroddiadau'r pennaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gyflawniadau'r disgyblion a'r modd y maent yn cymharu â pherfformiad ysgolion eraill tebyg. Mae hyn oll yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r hunanarfarnu yn gadarn ac yn rhan greiddiol o waith yr ysgol. Mae prosesau parhaus, clir a phwrpasol gan yr ysgol i fonitro ac arfarnu safonau a deilliannau'r disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yr ysgol, staff addysgu a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n effeithiol at y broses.

Mae arweinwyr yn arsylwi gwersi yn gyson ac yn llunio adroddiadau defnyddiol gydag argymhellion clir i wella agweddau ar yr addysgu. Nodwedd dda yw'r amser sy'n cael ei neilltuo i gynnal sgwrs broffesiynol yn syth ar ôl yr arsylwi. Yn yr un modd, mae arweinwyr yn craffu'n ofalus ar waith disgyblion i wella safonau a'r asesu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau disgyblion a gwella darpariaeth. Mae'n cynnwys dadansoddiad defnyddiol o ddata perfformiad ac mae'n adolygu pob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r effaith ar safonau a lles yn amlwg.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys nifer resymol o flaenoriaethau priodol. Mae arweinwyr yr ysgol wedi diffinio camau addas ar gyfer y blaenoriaethau hyn, ac mae'r cyfrifoldebau a'r goblygiadau ariannol yn glir. Mae'r broses o adolygu'r cynllun blaenorol yn gyson ac yn canolbwyntio'n dda ar fesur cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er lles a datblygiad y disgyblion. Mae partneriaeth gadarn iawn gyda'r rhieni ac mae'r ysgol yn elwa o'r cyfraniadau ariannol a'r ymrwymiad i wella adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a datblygu gardd yr ysgol.

Mae cysylltiadau arbennig yn bodoli rhwng yr ysgol ac amryw o glybiau chwaraeon lleol ac mae'r disgyblion yn dysgu am y pwysigrwydd o gadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis syrffio, mynydda, beicio a golff.

Mae partneriaeth gadarnhaol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol ac mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol yn cyfoethogi eu profiadau dysgu ymhellach.

Mae'r trefniadau trosglwyddo o'r cylch meithrin i'r ysgol yn dda ac yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n hyderus. Mae cynllun pontio cynhwysfawr ar gyfer y disgyblion adeg symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion y dalgylch drwy weithgareddau safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Maent yn rhannu arfer dda trwy gyd-gynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r cydweithio hwn wedi cynorthwyo athrawon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r prosesau a'r disgwyliadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae athrawon yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Mae gan gynorthwywyr addysgu rolau priodol ac maent yn cyfrannu'n helaeth at ddysgu'r disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau llwyddiannus o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Er enghraifft, mae gwaith arbennig ar hyn o bryd gydag ysgol arbennig i ffocysu ar ysgrifennu estynedig. Mae pob aelod o'r staff yn mynychu sesiynau hyfforddi ysgol gyfan a chyrsiau allanol yn rheolaidd, yn unol â'u targedau datblygiad proffesiynol a phersonol a blaenoriaethau'r ysgol.

Mae’r pennaeth yn arwain rheoli perfformiad yn briodol ac mae’n sicrhau bod y trefniadau’n bodloni gofynion statudol.  Mae’r ysgol yn cyflawni holl ofynion y cytundeb baich gwaith cenedlaethol.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a’i chyllideb yn effeithiol.  Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn seilio’u penderfyniadau ariannol yn briodol ar anghenion yr ysgol.

Yn sgil y deilliannau llwyddiannus a gyflawna disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen ac ar y deilliant disgwyliedig ym medrau iaith, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig yn uwch na chyfartaledd y teulu ymhob maes.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y 50% uwch. Roedd perfformiad y disgyblion ar ddeilliant 6 yn y 50% uwch mewn medrau llythrennedd ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol dros y ddwy flynedd.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, yn gyffredinol, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ac mae'r bwlch yn arwyddocaol o gymharu â'r blwch cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2013 roedd y canran a gyflawnodd ar lefel 5 yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y pedwar pwnc.

Dros gyfnod o bum mlynedd, yn gyffredinol, mae'r merched wedi tueddu perfformio yn well ar lefel 5 yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r bechgyn mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 disgwyliedig wedi amrywio ychydig dros y pedair blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg o'r 25% uchaf i'r 25% isaf. Roedd perfformiad y disgyblion yn 2012 yn is o lawer o gymharu â'u perfformiad dros y blynyddoedd eraill. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar lefel 5 wedi amrywio o'r 25% uchaf i'r 25% isaf ac roedd perfformiad y disgyblion yn is o lawer yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012.

Ar y cyfan, mae disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school. | 38 | 35<br>92% | 3<br>8% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 38 | 35<br>92% | 3<br>8% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Huw Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Judith Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhys Roberts | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.